


The logo for 'Project X' features a large, stylized blue 'X' with a red and white diamond pattern inside. The word 'Project' is written in yellow, bold, sans-serif font across the middle of the 'X'.

Project

Ymosodiad ^y Neidr Gantroed

The cover illustration depicts a young boy with blonde hair and a red t-shirt, looking up with a shocked expression, his arms raised. He is standing on a dark, rocky surface. To his right is a massive, dark, segmented insect-like creature with many sharp, yellowish, pointed appendages. The background is a bright yellow with large, light blue triangular shapes.

**Jan Burchett
Sara Vogler**

DRAKE

Jon Stuart

Ymosodiad y Neidr Gantroed



Jan Burchett a Sara Vogler
Lluniau gan Jon Stuart

DRAKE

Yn y stori hon ...




Sbwt



Hops



Gweithwraig y fferm



Carwen y cantroed

Roedd Jac, Non, Sbwt a Hops yn ymweld â'r
ffferm ddinas leol. Roedd wedi bod yn fore
prysur. Aeth Jac a Non i gael diod yn y caffi.
Llusgodd Sbwt Hops y ffordd arall.
“Mae 'da fi rywbeth i'w ddangos i ti,” meddai Sbwt.



“Mwydod!” meddai Hops.

“Cwŵl, on’d yw e?” atebodd Sbwt. Pwyntiodd at abwydfa wydr lle roedd llawer o fwydod yn ymnyddu. “Ti’n rhoi bwyd gwastraff i mewn ac mae’r mwydod yn ei fwyta.”

“Beth sy’ mor cwŵl am hynny?” gofynnodd Hops, yn syn.



“Ailgylchu yw e,” meddai Sbwt. “Maen nhw’n troi’r bwyd yn wrtaith.”

“Mae fy nhad-cu yn rhoi gwrtaith ar ei ardd,” meddai Hops wrtho.

“Mae’n dweud ei fod yn helpu’r planhigion i dyfu.”



Pwysodd Sbwt ei wyneb yn erbyn y gwydr.
“Rwyf eisiau edrych ar wyau’r mwydod,” meddai.
“Byddai’n dda pe gallwn grebachu.”

Roedd rhywbeth wedi mynd o’i le ar watsh Sbwt
yn gynharach y diwrnod
hwnnw. Nid oedd am
fentro crebachu nes
iddo drwsio ei watsh.



Yna cafodd Sbwt syniad.

“Mae dy watsh di’n gweithio,” meddai wrth Hops.
“Gallet ti fynd i mewn a chodi wŷ mwydyn i fi.”

Camodd Hops am yn ôl.

Gwenodd Sbwt. “Does dim ofn arnat ti,
oes e?” gofynnodd.


“Na!” snwffiodd Hops.

“A wnei di, Hops? *Plîs!*” meddai Sbwt.

Yn y diwedd cytunodd Hops.



Trodd Hops y deial ar ei watsh a...



Cododd Sbwt Hops. Agorodd y gorddrws ar yr abwydfa. Roedd ar fin rhoi Hops i mewn pan glywodd lais y tu ôl iddo.



Trodd Sbwt. Un o weithwyr y fferm oedd yno.

“Wyt ti wedi gweld Carwen?” gofynnodd hi.

“Carwen?” meddai Sbwt.

“Neidr gantroed enfawr o Awstralia yw hi.
Mae hi wedi dianc.”

“Na, dw i ddim wedi ei gweld,” meddai Sbwt.

“Ond cewch wybod gen i os gwelaf i hi.”

Diolchodd y ferch iddo a cherdded i ffwrdd.

“Whiw!” meddai Sbwyt, gan roi Hops i lawr.
“Cael a chael oedd hi.”

Neidiodd Hops i mewn i'r abwydfa. Glaniodd
ar y pridd gyda sŵn pwniad.


Cododd ar ei draed ac edrych o'i
gwmpas. Roedd llawer o fwydod.
Roedden nhw'n edrych mor
fawr â nadredd.



Cafodd Hops hyd i'r wyau mwydod yn fuan. Roedd ar fin codi un pan ddaeth rhywbeth ar frys swnllyd trwy'r bwyd gwastraff. Trodd Hops.

Roedd neidr gantroed yn dod tuag ato. Roedd hi mor fawr â chrocodeil!






Roedd wyneb Sbwt wedi ei wasgu yn erbyn y gwydr. Edrychai'n ofnus.

“Beth sy'n bod ar Sbwt?” meddylodd Hops. “Dim ond neidr gantroed yw hi. Wnaiff hi ddim fy mrifo i!”

Ond roedd Sbwt yn gwybod mai cigysyddion oedd nadredd cantroed. Roedden nhw'n bwyta cig. Byddai Hops yn ginio blasus!



Roedd y caead wedi ei osod yn dynn ar yr abwydfa a'r gorddrws yn rhy fach i Sbwt roi ei law i mewn.

Tynnodd bensil o'i boced. Dechreuodd ysgrifennu nodyn. Gwyliodd Hops.

"*Cig!*" meddai Hops. "Rhaid bod Sbwt yn tynnu fy nghoes. Does dim cigfran fan hyn."

Gorffennodd Sbwt y nodyn.

“Cigysydd!” darllenodd Hops gyda braw.
Trodd a syllu i geg agored Carwen. Edrychodd
ar binsiyrnau miniog Carwen. “Help!” bloeddiodd.

Cigysydd!





Neidiodd Hops i un ochr mewn pryd. Caeodd y neidr gantroed ei phinsiyrnau ynghyd yn flin. Sgrialodd Hops tua'r gorddrws. Roedd y neidr gantroed yn dynn ar ei sodlau.

“Dw i ddim yn mynd i ddianc!” cwynodd Hops.




Gafaelodd Hops mewn darn o groen oren a throdd i wynebu ei ymosodwr.

Hyrddiodd Carwen tuag ato. Daliodd Hops y croen oren o'i flaen fel tarian. Suddodd Carwen ei dannedd i mewn iddo a'i rwygo o law Hops.



Cododd Hops goesyn afal. Daliodd ef o'i
flaen. Rhwygodd y neidr gantroed lwglyd ef
yn ddau.

Symudodd Hops wysg ei gefn i'r cornel.



Roedd Hops yn union o dan
y gorddrws. Ond roedd yn rhy
uchel iddo ei gyrraedd.

Roedd yn rhaid i Sbwt gael
hyd i ffordd o helpu ei ffrind.






Teimlodd yn ei bocedi a chafodd afael ar ei dâp mesur. Dyna'r ateb!

Tynnodd ben y tâp mesur o'i gasyn. Gadawodd iddo hongian y tu mewn i'r abwydfa.

Safai'r neidr gantroed yn uchel uwchben Hops.
"Fi yw ei chinio!" meddylodd Hops.

Yn sydyn, ymddangosodd y tâp mesur yn ei ymyl.
Edrychodd i fyny a gweld Sbwt.





Neidiodd Hops ar
y pen metel.

Pwysodd Sbwt y
botwm ar gasyn y
tâp mesur.

WWWSH!

Saethodd Hops i fyny
trwy'r gorddrws.

Aeth Sbwt i ddweud wrth weithwraig y fferm
am Carwen. Tyfodd Hops yn ôl i'w faint arferol
yn gyflym.

Cyn hir roedd Carwen yn ôl yn ei thanc.
Roedd Hops a'r mwydod yn ddiogel.



“Dere,” meddai Hops. “Dere i ddweud wrth Jac a Non am ein hantur.”

“Dy antur *di*, ti’n ei feddwl!” meddai Sbwt. “Mae’n ddrwg ’da fi ’mod i wedi dy anfon i chwilio am wŷ mwydyn. Mae’n ddrwg ’da fi ’mod i wedi dy roi di mewn perygl.”

“Paid â phoeni,” meddai Hops, gan wenu ar ei ffrind. “Llwyddais i *ymnyddu* fy ffordd allan,” chwarddodd.

